# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adroddiad Cyllid 2015-16** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 16.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Andrea Morgan (Rheolwr Cyllid Busnes)**<br>**Rob Bell (Pennaeth Cyllid Busnes)** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | Craffu |
| **Argymhelliad:** | **Caiff y Bwrdd ei wahodd i:**<br><br>Nodi'r perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn fel yr oedd ddiwedd mis Chwefror 2016, a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:** Bydd defnyddio ein hincwm yn effeithiol yn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu cyfeirio at gyflawni canlyniadau sy'n flaenoriaeth.<br><br>**Effaith ar yr economi:** Mae defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i gwsmeriaid yr ydym yn codi tâl arnynt am ein gwasanaeth.<br><br>**Effaith ar y gymuned:** Mae defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn sicrhau ein bod yn galluogi cymunedau i fwynhau cynifer o fanteision ag sy'n bosibl.<br><br>**Effaith ar wybodaeth:** Amherthnasol |

## Crynodeb

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol ar gyfer 2015-16, a'r effaith ar ein sefyllfa o ran yr hyn y byddwn yn ei ddwyn ymlaen.

## Cefndir

2. Bu i ni adrodd yn flaenorol y byddai ein hincwm ar gyfer y flwyddyn bresennol £5.9m yn fwy na'n gwariant, a diwygiwyd ein Cyllideb yn unol â hynny. Byddai'r swm hwnnw'n cael ei ddwyn ymlaen i 2016-17 i ariannu prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â llifogydd (£3m), a phrosiectau eraill y neilltuwyd cyllid ar eu cyfer lle'r oedd y proffil gwariant a gynlluniwyd wedi newid (£1.9m). Byddai'r gweddill (£1.0m) yn cael ei ddwyn ymlaen i gynorthwyo gyda'r pwysau cyffredinol ar ein cyllideb yn 2016-17.

3. Rydym yn parhau i fonitro perfformiad ariannol yn ofalus a'r alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn. Nid ydym wedi gwneud newidiadau pellach i'n Cyllideb eleni ond rydym wedi cyflwyno set ddata ar gyfer rhagolygon yn ein Hadroddiadau Ariannol a ddefnyddir i fonitro unrhyw newidiadau sylweddol ac adrodd yn eu cylch. Mae'r newidiadau diweddaraf i'r rhagolygon a'r effaith ar ein halldro ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u hamlinellu yn y papur hwn.

## Asesiad

### Newidiadau i'r sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer 2015-16

4. Mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos cynnydd o £2.3m mewn incwm a gostyngiad o £0.9m mewn gwariant, sy'n newid net o £3.2m. Caiff y newidiadau hyn eu hegluro'n fanylach yn Atodiad 1.

5. Mae hynny'n golygu bod ein gweddill ar ddiwedd y flwyddyn, a gaiff ei ddwyn ymlaen i 2016-17, wedi cynyddu o £5.9m i £9.1m.

6. O'r arian hwn, caiff £4m ei ddwyn ymlaen i 2016-17 i ariannu prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â llifogydd, a chaiff £3.3m ei ddwyn ymlaen i ariannu prosiectau eraill y neilltuwyd cyllid ar eu cyfer lle mae'r proffil gwariant a gynlluniwyd wedi newid. Caiff y gweddill (£1.8m) ei ddwyn ymlaen i gynorthwyo gyda'r pwysau cyffredinol ar ein cyllideb yn 2016-17.

7. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf hon o ran yr hyn y byddwn yn ei ddwyn ymlaen wedi'i hadlewyrchu yn ein Cyllideb Agoriadol ar gyfer 2016-17.

### Perfformiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd yma

8. Mae crynodeb o'r perfformiad ariannol fel yr oedd ddiwedd mis Chwefror 2016 i'w weld yn Atodiad 1. Caiff Perfformiad Ariannol yn yr adroddiad hwn ei fesur ar sail y proffil a gynlluniwyd yn y Gyllideb Ddiwygiedig ac mae unrhyw newidiadau sylweddol y gwyddys amdanynt wedi'u cynnwys yn y golofn Rhagolygon newydd.

9. Mae incwm yn uwch na’r proffil (0.7% yn uwch) ddiwedd mis Chwefror. Disgwylir i gyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn fod yn unol â’r Rhagolwg diweddaraf, neu’n uwch.

10. Mae costau staff ychydig yn is na’r proffil (lai nag 1%) ac nid oes disgwyl iddynt fod yn fwy na’r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

11. Mae costau nad ydynt yn gostau staff, a phrosiectau refeniw a chyfalaf, wedi disgyn yn is na’r proffil gwariant a gynlluniwyd: mae costau nad ydynt yn gostau staff £2.7m yn is, mae prosiectau refeniw £1m yn is ac mae prosiectau cyfalaf £3.6m yn is. Mae’n bosibl y ceir mwy o danwariant a fydd y tu hwnt i’r hyn a ragwelwyd.

12. Byddwn yn parhau i adolygu a monitro gwariant yn ofalus trwy gydol gweddill y flwyddyn ariannol. Bydd Cyfarwyddiaethau yn canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd a bydd unrhyw danwariant pellach ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddwyn ymlaen, yn dibynnu ar y ffrwd gyllido, naill ai i brosiectau a rhaglenni penodol neu i gynorthwyo gyda phwysau cyffredinol ar gyllid yn 2016-17.

**Cymeradwyaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru**

13. Nid oes unrhyw eitemau pellach wedi’u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i’w cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

## <u>Argymhelliad</u>

14. Nodi’r perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn fel yr oedd ddiwedd mis Chwefror 2016, a’r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

## <u>Prif risgiau</u>

15. Byddwn yn parhau i fonitro’r alldro a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn yn ofalus a rheoli unrhyw gynnydd yn yr hyn y byddwn yn ei ddwyn ymlaen o fewn y terfynau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

## <u>Goblygiadau ariannol</u>

16. Mae’r papur hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â materion ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2015-16. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi ar wahân i’r amser a dreulir ar reolaeth ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar greu adroddiadau ariannol.

## <u>Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb</u>

17. Nid oedd angen asesiad o’r fath.

**<u>Mynegai i'r Atodiadau</u>**

18. Atodiad1 – Adroddiad Perfformiad Ariannol ar gyfer mis Chwefror 2016